# CRYNODEB O EFFAITH Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol 2024-2025

Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol
Future Generations Leadership Academy


## GWYBODAETH AM YR ACADEMI

- Grymuso pobl 18–30 oed ledled Cymru i arwain gyda phwrpas, seiliedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
- 70+ awr o ddysgu dwyieithog wedi ei ddarparu ar-lein ac wyneb yn wyneb
- Gweithdai, sesiynau preswyl, prosiectau, a dysgu rhwng cymheiriaid

**"Roeddwn i WRTH FY MODD gyda fy mhrofiad yn yr Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol. Rwy'n teimlo fel person newydd. Rwy'n teimlo'n llawer mwy brwdfrydig ac wedi ennill y grym i wneud effaith ac mae'r cysylltiadau a'r bobl rwyf wedi cyfarfod â nhw ar y cwrs, a thrwyddo, wedi fy ngalluogi i ddefnyddio fy syniadau bach i wneud effaith."**

## GWYBODAETH AM Y CYFRANOGWYR

Dewiswyd 36 o arweinwyr ifanc o bob cwr o Gymru yn dilyn proses ymgeisio agored. Mae cynhwysiant yn parhau i fod yn flaenoriaeth, gyda'r cefndiroedd amrywiol canlynol o fewn y garfan:




**"Roedd y sesiynau preswyl yn gyfle gwych i ddod i adnabod aelodau'r Academi, ac roedd y gweithdai'n ddiddorol. Roedd y llety ddarparwyd yn wych, heb unrhyw drafferthion yn ystod unrhyw arhosiad. Roedd y cyfarfodydd bob pythefnos yn effeithiol, ac roedd y seremoni raddio wedi'i threfnu'n dda."**

## EFFAITH Y RHAGLEN

Cyflawnodd Academi 2024–2025 effaith fesuradwy ar draws meysydd allweddol gwybodaeth, hyder ac arfer arweinyddiaeth:

Adroddodd y cyfranogwyr sgôr gyfartalog o 4.72 allan o 5 yn eu gwybodaeth, eu hyder, a'u gallu i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar ôl y rhaglen **(cynnydd o 43%)**

Cynyddodd sgôr y cyfranogwyr am eu dealltwriaeth o weithredu'r 7 Nod Llesiant o 2.34 allan o 5 cyn y rhaglen i 4.53 **(cynnydd o 44%)**

Cynyddodd hyder wrth weithredu'r Pum Dull o Weithio o 2.38 allan o 5 i 4.58 **(cynnydd o 44%)**

Gwelodd y sesiynau sgôr gyfartalog o **4.65 allan o 5** ar gyfer cynhwysiant sesiynau a **4.28 allan o 5** ar gyfer effeithiolrwydd dysgu.

*Data wedi ei adolygu, a'r adroddiad wedi ei gynhyrchu mewn partneriaeth â* Leaderful Action